RHWYDWAITH DARPARWYR HYFFORDDIANT

# Polisi apeliadau



Cyhoeddwyd gan CITB, 4 Cyrus Way, Hampton, Peterborough, PE7 8HP.

© Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu 2025

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Awst 2025.

Mae CITB wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestru SC044875).

# Cwmpas

Yr holl gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan aelodau o rwydwaith darparwyr hyfforddiant CITB, gan gynnwys hyfforddiant a allai gael cymorth ariannol gan CITB neu beidio, fel y nodir isod.

- Cynnyrch sydd wedi'i gymeradwyo yn y categori wedi'i sicrhau.
- Cynnyrch yn y categori trwyddedig.
  - Site Safety Plus.
  - Profion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.
  - Cynnyrch sy'n cael cefnogaeth ariannol gan CITB.
- Penderfyniadau CITB a wnaed yn ystod y prosesau cymeradwyo, monitro neu ymchwilio.
- Sefyllfaoedd lle mae'r cynrychiolydd wedi dilyn proses apelio fewnol y darparwr hyfforddiant i'r pen.

# Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn nodi'r broses y gall unigolion neu aelodau o'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant ei defnyddio i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan CITB sy'n ymwneud â chanlyniadau archwilio, canlyniadau ymchwiliadau, a phenderfyniadau perthnasol eraill. Mae'n sicrhau bod apeliadau'n cael eu rheoli'n effeithlon, yn deg, yn gyson ac yn dryloyw wrth benderfynu ar apeliadau.

Bydd y polisi hefyd yn nodi pryd y bydd CITB yn ymwneud ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau darparwyr hyfforddiant.

**Cynrychiolwyr sy'n dymuno apelio:**

- Penderfyniadau ynghylch hyfforddiant, profion, asesiadau a chanlyniadau sy'n cael eu gwneud gan ddarparwr hyfforddiant, (mewn achosion lle mae'r cynrychiolydd wedi dilyn proses apelio fewnol y darparwr hyfforddiant i'r pen)
- Penderfyniadau ar gyfer defnyddio amodau arbennig a/neu addasiadau rhesymol, (mewn achosion lle mae'r cynrychiolydd wedi dilyn proses apelio fewnol y darparwr hyfforddiant i'r pen)
- Penderfyniadau a wneir gan CITB a allai effeithio ar y cynrychiolydd gan gynnwys achosion o gamymarfer/camweinyddu a thwyll lle mae tystysgrifau, profion a/neu ganlyniadau wedi cael eu diddymu.

**Aelodau'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant sy'n dymuno apelio**:

- Penderfyniadau archwilio/sicrhau ansawdd CITB
- Penderfyniadau ynghylch cymeradwyo
- Amodau arbennig ac addasiadau rhesymol lle mae CITB yn gwneud penderfyniadau
- Atal neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl
- Canlyniadau penderfyniadau ymchwilio
- Cofrestriadau hyfforddwyr (categori trwyddedig Site Safety Plus).

## Sail a meini prawf dros apelio

Mae sail dderbyniol dros apelio yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Unrhyw benderfyniad a wneir gan y tîm ansawdd sy'n gysylltiedig â chymeradwyo, monitro a gweithredu o ran rheoli darparwyr
- Afreolaidd-dra ymddangosiadol gyda’r drefn
- Tystiolaeth o ragfarn neu driniaeth annheg
- Anghytuno â chanlyniad ymchwiliad i gamymarfer/camweinyddu/twyll
- Anghytuno â chanlyniad cais am amod arbennig a/neu addasiad rhesymol
- Anghydfodau ynghylch canlyniadau hyfforddiant, profion a/neu asesiadau.

## Camau Apelio

**Yr apêl gyntaf**

- Dylid cyflwyno’r apêl gyntaf i CITB o fewn 10 diwrnod gwaith i apelio’r penderfyniad gwreiddiol, ac fe ddylai gynnwys y canlynol:

- Manylion llawn yr apelydd (enw, manylion cyswllt)
- Manylion llawn y penderfyniad sy’n destun yr apêl
- Rhesymau dros apelio
- Unrhyw dystiolaeth ategol
- Y canlyniad a ddymunir.

Dylid cyflwyno'r apeliadau cyntaf i'r Rheolwr Cymeradwyo a Chydymffurfio yn quality.assurance@citb.co.uk a rhoi “apêl gyntaf” fel teitl ar eich e-bost.

Caiff apêl gyntaf ei hystyried cyn pen 15 diwrnod gwaith i dderbyn yr wybodaeth ysgrifenedig a’r dogfennau ategol a ddarperir gan y darparwr hyfforddiant neu'r cynrychiolydd. Bydd gan CITB 5 diwrnod gwaith arall i roi gwybod i’r darparwr hyfforddiant neu’r cynrychiolydd am ganlyniad yr apêl gyntaf.

Os bydd yr apêl gyntaf yn llwyddiannus, bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei wrthdroi.

Bydd penderfyniad gwreiddiol CITB yn aros nes bydd yr apêl gyntaf wedi dod i ben.

Gall CITB ymestyn yr amser sydd ar gael i ystyried yr apêl gyntaf yn ôl ei ddisgresiwn llwyr gan gynnwys, er enghraifft, ar gyfer achosion cymhleth. Bydd CITB yn rhoi gwybod i'r darparwr hyfforddiant neu’r cynrychiolydd yn ysgrifenedig ynghylch unrhyw estyniad amser o'r fath.

Bydd CITB yn sicrhau mai cyflogeion CITB nad oeddent ynghlwm â gwneud y penderfyniad gwreiddiol fydd yn adolygu’r apeliadau cyntaf er mwyn sicrhau didueddrwydd ac annibyniaeth.

**Ail apêl**

Os na chaiff ei datrys, gall yr apelydd gyflwyno ail apêl yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith i gael penderfyniad yr apêl gyntaf. Diben yr ail apêl yw edrych ar y dystiolaeth a'r penderfyniad o'r gwrandawiad apêl cyntaf.

Rhaid i'r ail apêl gynnwys y canlynol:

- Manylion llawn yr apelydd (enw, manylion cyswllt)
- Manylion llawn y penderfyniad sy'n destun yr apêl
- Rhesymau dros apelio
- Unrhyw dystiolaeth ategol
- Y canlyniad a ddymunir.

Dylid cyflwyno'r apeliadau i'r Rheolwr Cymeradwyo a Chydymffurfio dros e-bost i Quality.assurance@citb.co.uk. Dylech roi "Ail apêl" fel teitl ar eich e-bost.

Bydd ail apeliadau'n cael eu hadolygu gan uwch-reolwr annibynnol a/neu banel sy'n annibynnol ar yr Adran Sicrhau Ansawdd ac nad ydynt wedi bod yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol na phenderfyniad yr apêl gyntaf.

Caiff ail apêl ei hystyried cyn pen 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr wybodaeth ysgrifenedig a'r dogfennau ategol a ddarperir gan y darparwr hyfforddiant neu'r cynrychiolydd. Bydd gan CITB 5 diwrnod gwaith arall i roi gwybod i'r darparwr hyfforddiant neu'r cynrychiolydd am ganlyniad yr apêl gyntaf.

Bydd penderfyniad gwreiddiol CITB yn aros nes bydd yr ail apêl wedi dod i ben.

- Gall CITB ymestyn yr amser sydd ar gael i ystyried yr ail apêl yn ôl ei ddisgresiwn llwyr gan gynnwys, er enghraifft, ar gyfer achosion cymhleth. Bydd CITB yn rhoi gwybod i'r darparwr hyfforddiant neu'r cynrychiolydd yn ysgrifenedig ynghylch unrhyw estyniad amser o'r fath.

Gall yr uwch-reolwr annibynnol neu'r panel wneud y canlynol:

- Gofyn i'r apelydd gyflwyno ei achos ei hun
- Gofyn am ymchwiliad pellach
- Siarad gydag eraill sy'n ymwneud â'r achos
- Darperir canlyniad ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr apêl ffurfiol.

**Yr apêl derfynol**

Os bydd yr apelydd yn parhau i fod yn anfodlon, gall wneud cais am adolygiad annibynnol cyn pen 10 diwrnod gwaith i gael canlyniad yr ail apêl. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal gan uwch-reolwr CITB a chwnsler allanol nad oedd yn rhan o'r apêl gyntaf, yr ail apêl na'r penderfyniad gwreiddiol.

Darperir canlyniad ysgrifenedig o fewn 60 diwrnod gwaith i dderbyn y cais am adolygiad annibynnol.

Rhaid i'r apêl derfynol gynnwys y canlynol:

- Manylion llawn yr apelydd (enw, manylion cyswllt)
- Manylion llawn y penderfyniad sy'n destun yr apêl
- Pam mae'r apelydd yn dymuno herio'r broses apelio
- Y canlyniad a ddymunir.

Dylid cyflwyno'r apeliadau i'r Rheolwr Cymeradwyo a Chydymffurfio dros e-bost i Quality.assurance@citb.co.uk. Dylech roi "Apêl derfynol" fel teitl ar eich e-bost.

Bydd penderfyniad gwreiddiol CITB yn aros nes bydd yr apêl derfynol wedi dod i ben.

Gall CITB ymestyn yr amser sydd ar gael i ystyried yr apêl derfynol yn ôl ei ddisgresiwn llwyr gan gynnwys, er enghraifft, ar gyfer achosion cymhleth. Bydd CITB yn rhoi gwybod i'r darparwr hyfforddiant neu'r cynrychiolydd yn ysgrifenedig ynghylch unrhyw estyniad amser o'r fath.

**Mae'r penderfyniad ar ddiwedd y cam hwn yn derfynol ac yn dod â phroses apelio CITB i ben.**

## Ffioedd

Bydd CITB yn codi tâl cyn gwrando ar ail neu drydedd apêl. Bydd yn cael ei ad-dalu os caiff yr apêl ei chadarnhau. Unig bwrpas y tâl hwn yw talu costau gweinyddu, staff a chostau allanol gwrando'r apêl.

Ni chodir tâl ar y darparwr hyfforddiant na’r cynrychiolydd am yr **apêl gyntaf**.

Codir £150 ar y darparwr hyfforddiant neu’r cynrychiolydd am yr **ail apêl**. Bydd yn cael ei ad-dalu os caiff yr apêl ei chadarnhau.

Codir £400 arall ar y darparwr hyfforddiant neu'r cynrychiolydd am yr **apêl derfynol**. Bydd yn cael ei ad-dalu os caiff yr apêl ei chadarnhau, ynghyd â ffi'r ail apêl a dalwyd yn flaenorol.